

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**  
Chief Officer (Governance)  
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:  
Janet Kelly 01352 702301  
janet.kelly@flintshire.gov.uk

At: Cyng Rosetta Dolphin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton and Owen Thomas

Dydd Mercher, 2 Chwefror 2022

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**  
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**  
**DYDD MAWRTH, 8FED CHWFROR, 2022 9.30 AM**

**\*\*SYLWCH AMSER DECHRAU'R CYFARFOD\*\***

Yn gywir

Gareth Owens  
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

## R H A G L E N

### 1 YMDDIHEURIADAU

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

### 3 COFNODION (Tudalennau 7 - 24)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfodydd ar 9 Tachwedd 2021 a 11 Ionawr 2022.

### 4 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED (Tudalennau 25 - 32)

Adroddiad Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd -

**Pwrpas:** I Ystyried y flaenraglen waith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor o'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

### 5 STRATEGAETH NEWID HINSAWDD (Tudalennau 33 - 108)

Adroddiad Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) -

**Pwrpas:** Ym mis Rhagfyr 2019, ymrwymodd y Cyngor i ddatblygu cynllun gweithredu i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae ein Rheolwr Rhaglen yn cyflwyno'r ddogfen strategaeth ddrafft sy'n cynnwys manylion am ein cynllun i gyflawni'r targed hwn.

### 6 CAIS AM ARIAN GRANT I HYBU MENTRAU ATGYWEIRIO AC AILDDEFNYDDIO (Tudalennau 109 - 118)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Aelod Cabinet dros Strydlun

**Pwrpas:** Cynghori'r Pwyllgor Craffu o'r bwriad i gyflwyno cais am grant i ddarparu prosiect peilot i weithredu mentrau atgyweirio ac aildefnyddio ar draws Sir y Fflint.

7 **CASGLIADAU GWASTRAFF SWMPUS** (Tudalennau 119 - 126)

Adroddiad Prif Swydddog (Stryd a Chludiant) - Aelod Cabinet dros Strydlun

**Pwrpas:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu ar ddarparu gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.

8 **EFFAITH Y PANDEMIG A FFACTORAU ERAILL AR WASANAETHAU CLUDIANT A CHOSTAU GWEITHREDU** (Tudalennau 127 - 132)

Adroddiad Prif Swydddog (Stryd a Chludiant) - Aelod Cabinet dros Strydlun

**Pwrpas:** Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn argymhelliad yng nghyfarfod y Pwyllgor Adfer a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021, a amlygodd fod costau gweithredu trafnidiaeth yn cynyddu tra bod nifer y gweithredwyr trafnidiaeth sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau yn lleihau. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut mae gwasanaethau bws cyhoeddus wedi eu hariannu yn ystod y pandemig ynghyd ag effaith ar weithwyr a lefelau gwasanaeth, yn ogystal â datblygiadau yn y dyfodol.

9 **CROESFANNAU CWRB ISEL HYGIRCH I GERDDWYR** (Tudalennau 133 - 146)

Adroddiad Prif Swydddog (Stryd a Chludiant) - Aelod Cabinet dros Strydlun

**Pwrpas:** Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i gais gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a'r Economi ym mis Tachwedd 2021. Mae'r adroddiad yn nodi sut rydym yn delio gyda darpariaeth cwrb isel i gerddwyr o fewn y briffordd dan sylw mewn perthynas â manau croesi heb eu rheoli, oherwydd nad oes yna gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn ceisiadau, nodi safleoedd, cydnabod yr ateb priodol, defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ac mae'n nodi dulliau cyllid posibl ar gyfer cyrbiau isel hygyrch i gerddwyr.

10 **PARC ARFORDIR SIR Y FFLINT** (Tudalennau 147 - 172)

Adroddiad Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) - Aelod Cabinet Datblygu Economaidd

**Pwrpas:** Mae'r Cabinet yn croesawu barn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi ar y cynnig i ddatblygu Parc Rhanbarthol Arfordir Sir y Fflint, gan godi proffil y blaendraeth a galluogi cymunedau a busnesau i weithio'n gynaliadwy ac yn arloesol i helpu i ddarparu ffyniant amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***

## **Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>